Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Sant Baruc
# St Paul's Avenue
# Y Barri
# CF62 8HT

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Sant Baruc

Lleolir Ysgol Gymraeg Sant Baruc yn Y Barri, ym Mro Morgannwg.  Mae 234 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 46 oed meithrin rhan-amser.  Fe'u rhennir yn 8 dosbarth.

Ar gyfartaledd dros dreigl 3 blynedd, tua 9% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae lleiafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae'r ysgol wedi adnabod 17% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2010 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan ddisgyblion agweddau eithriadol o dda at ddysgu.  Maent yn dangos brwdfrydedd a gwir fwynhad yn eu gwaith.  Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae bron pob un disgybl yn siarad Cymraeg i safon uchel.  O'u mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud o leiaf gynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.  Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae ethos gofalgar a chynhaliol yr ysgol yn sicrhau awyrgylch dysgu effeithiol.  Ategir hyn gyda pharch a pherthynas waith gadarnhaol iawn rhwng oedolion a disgyblion sy'n arwain at ymddygiad da iawn tu fewn a thu allan i wersi.  Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain, staff a'r disgyblion.  Mae gan y pennaeth weledigaeth glir iawn ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd safonau uchel o fewn awyrgylch cartrefol a Chymreig ei naws.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau her briodol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wrth iddynt weithio’n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu

A2 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â sicrhau safonau llafar Cymraeg uchel ar draws yr ysgol ac wrth ddatblygu agweddau aeddfed disgyblion at ddysgu erbyn pen uchaf cyfnod allweddol 2, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud o leiaf gynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u mannau cychwyn ac yn cyflawni'n arbennig o dda erbyn Blwyddyn 6. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn y cyfnod sylfaen bob tro'n cyflawni cystal ag y gallent. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl effeithiol, er enghraifft wrth drefnu pethau gwahanol sy'n effeithio ar ein hiechyd o ran eu pwysigrwydd ym Mlwyddyn 4.

Mae medrau llefaredd rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn ystyried safbwyntiau eraill gyda pharch. O oedran cynnar, maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg ac yn dechrau defnyddio geirfa a phatrymau syml yn eu chwarae, er enghraifft wrth esbonio eu modelau anifeiliaid yn y dosbarth meithrin. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn cyfathrebu'n hyderus ac yn naturiol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae safon eu hiaith yn raenus ac maent yn siarad â chywirdeb a gydag aeddfedrwydd. Mae dylanwad safonau llafaredd uchel rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau darllen ac ysgrifennu. O ganlyniad, ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cryf ac yn ysgrifennu'n llwyddiannus i wahanol bwrpasau yn y ddwy iaith. Ym Mlwyddyn 2, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cynnwys llyfrau ffeithiol yn hyderus i chwilio am wybodaeth am drychfilod ac yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i ysgrifennu disgrifiad. Mae'r rhan fwyaf ym Mlwyddyn 5 yn defnyddio ystod ehangach o wybodaeth o'r we a thaflenni gwybodaeth i ysgrifennu ffeil o ffeithiau diddorol am y ffair. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u huwch fedrau darllen yn fedrus iawn i ddadansoddi cerddi i drafod effaith banciau bwyd ar les ac emosiynau pobl. Maent yn mynegi a chyfiawnhau eu barnau yn aeddfed gan ddefnyddio geirfa soffistigedig.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth gref o rif, siâp, mesur a thrin data yn fedrus wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio cyfeiriadau'n briodol i gynllunio'r ffordd orau i Jac ddringo'r goeden ffa. Wrth ddysgu am ddisgyrchiant mewn gwyddoniaeth, mae bron pob un disgybl ym Mlwyddyn 6 yn cyfrifo'r cymedr, llunio graff a dehongli'r graff yn fedrus wrth ymchwilio i effaith amrywio ongl y llethr ar y pellter y mae'r car yn teithio.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn addas wrth weithio ar draws yr ardaloedd dysgu pan gânt y cyfle. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn defnyddio'u dealltwriaeth o adio a thynnu yn briodol i gyfrifo a rhoi newid hyd at 10c yn 'Siop y Traeth' yn yr ardal allanol. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 yn ysgrifennu cyfarwyddiadau syml ar sut i dyfu berwr gan drefnu'u gwaith yn synhwyrol. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u holl fedrau yn bwrpasol yn ystod gwahanol brosiectau ac mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Er

enghraifft, ym Mlwyddyn 3, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau'n effeithiol i drefnu mabolgampau'r ysgol. Maent yn defnyddio'u medrau meddwl i gynllunio camp newydd, eu medrau rhifedd i fesur y trac rhedeg, eu medrau creadigol i greu rhosenni i'r enillwyr a'u medrau llythrennedd i greu posteri dwyieithog i hysbysebu'r digwyddiad.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio pecynnau celf yn effeithiol i dynnu lluniau o gymeriadau o storïau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio taenlenni yn addas er mwyn cyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth greu graff o hoff ffrwythau'r dosbarth ym Mlwyddyn 4. Ar draws yr ysgol, mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh i lefel sy'n briodol ar gyfer eu hoed a gallu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae gan bron pob un disgybl agwedd eithriadol o dda at ddysgu, gyda'r agweddau hyn wedi'u sefydlu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae bron pob un yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi ac yn dangos gwir fwynhad yn eu gwaith. Maent yn awyddus iawn i gyfrannu yn ystod gwersi. Maent yn ymateb yn frwdfrydig wrth weithio fel dosbarth cyfan ac mewn parau i gwblhau eu tasgau i safon uchel. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn ddiwyd iawn wrth weithio ar eu tasgau ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n llwyddiannus am gyfnodau estynedig. Enghraifft arbennig o dda o hyn yw sut mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn dangos gwydnwch wrth dorri allan coesau yn fanwl i greu model o Sali Sws yr Octopws gan sicrhau'r nifer cywir o goesau iddi.

Erbyn cyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn ymateb yn ymestynnol a gyda meddylgarwch i amrywiaeth o gwestiynau heriol gan oedolion. Maent yn trafod eu gwaith yn wybodus ac aeddfed. Mae bron pob un yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus iawn ac annibynnol gan feddu ar ystod eang o fedrau dysgu, yn enwedig erbyn pen uchaf y cyfnod allweddol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ystyried y goblygiadau moesegol ar gyfer cefnogi grwpiau o bobl sy'n ddigartref mewn dinasoedd Cymru. Maent yn ystyried yr ystadegau yn ofalus er mwyn blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwahanol brosiectau i gefnogi pobl ddigartref gan ddangos aeddfedrwydd a sensitifrwydd yn eu hatebion. Mae bron pob un disgybl yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'u cyfoedion ac yn dangos parch at farn eraill. Yn ystod gwersi, maent yn gwrando'n astud, yn trafod yn fyrlymus ac yn mynegi barn yn hyderus gan gyfiawnhau eu barn yn ddeallus. Mae disgyblion yn gwerthuso'u gweithgareddau'n synhwyrol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fuddiol i helpu ffurfio gweithgareddau pellach. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt berchnogaeth gref dros y cwricwlwm a sut maent yn dysgu.

Mae bron pob un disgybl yn falch iawn eu bod yn siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith i safon uchel iawn tu fewn a thu allan i'r ysgol. Mae hyn yn amlwg wrth i rieni nodi mai'r Gymraeg yw dewis iaith y disgyblion wrth iddynt gymdeithasu â'u ffrindiau tu allan i oriau'r ysgol. Mae bron pob disgybl yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hardal ac yn deall pwysigrwydd eu rôl fel dinasyddion byd eang. Er enghraifft, mae disgyblion wedi trefnu casglu sbwriel o'u gwirfodd ar draeth Ynys y Barri yn dilyn prysurdeb penwythnos gŵyl y banc ac yn annog disgyblion eraill i ymuno a hwy y tro nesaf.

Mae ymddygiad disgyblion mewn gwersi, o gwmpas yr ysgol a thu allan i'r ysgol yn ardderchog. Er enghraifft, oherwydd diffyg cyfleusterau ar dir yr ysgol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gorfod cerdded i'r ysgol Saesneg gyfagos i gael cinio. Maent yn cerdded yno yn synhwyrol ac yn dangos amynedd a pharch wrth aros i gael eu bwyd. Mae bron pob disgybl yn falch iawn o fod yn rhan o Ysgol Gymraeg Sant Baruc. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch gwirioneddol tuag at ei gilydd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd arbennig y mae disgyblion hŷn yn gofalu am eu cyfoedion iau adeg egwyl. Drwy gynlluniau fel 'Mêts Grêt' a 'Ffrind Cudd', mae disgyblion yn ceisio sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn eu dosbarthiadau ac wrth gymdeithasu. Nodwedd ragorol o ymagwedd y disgyblion yw'r ffordd y maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch ac aeddfedrwydd. Mae bron pob un yn barod i sgwrsio a thrafod yn hyderus a chyda hiwmor priodol mewn Cymraeg gywir a graenus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed a phwysigrwydd cadw'n heini. Mae'r cynghorau ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd a gwaith yr ysgol ac yn deall eu rôl wrth ddatblygu agweddau o'r ysgol yn fedrus, er enghraifft wrth sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'u hawliau drwy 'hawl y mis'. Mae disgyblion yn cefnogi'r gweithgareddau codi arian yn dda iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at nifer o elusennau sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill yn y gymuned leol a thu hwnt.

Mae bron pob un yn ymateb yn gadarnhaol i gael eu gwobrwyo, er enghraifft drwy 'Sêr yr Wythnos', 'Arwyr yr Awr' a'r 'Capteiniaid Cymraeg'. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n dda iawn i'w dysgu, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd, er enghraifft band roc yr ysgol 'Dagrau'r Tân' ac wrth baratoi ar gyfer rownd terfynol y cwis llyfrau yn y ddwy iaith. Maent yn ymfalchïo'n llwyr yn llwyddiannau'r ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoes sy'n datblygu medrau disgyblion a'u hawydd i ddysgu yn bwrpasol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac ysgogol sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol gydag amrywiaeth o ymweliadau addysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad â disgyblion, fel aelod o staff yn y banc bwyd lleol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu'r cwricwlwm i gynnwys gweithgareddau 'Bwrlwm Baruc' yn wythnosol. Mae'r gweithgareddau, fel gwnïo, athroniaeth, coginio a Sbaeneg, yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu medrau newydd ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u gallu i gydweithio yn dda.

Mae darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn modelu iaith o safon uchel yn gyson ac yn gwirio camgymeriadau ieithyddol mewn modd sensitif a chynhaliol. Maent yn cynllunio cyfleoedd cyson i ddrilio iaith yn rheolaidd gydag ymarferion llafar byrion fel 'Gramadeg Graenus.' Mae'r ffocws cryf ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion drwy weithgareddau fel 'llwyfan llafar', tasgau cyflwyno gwybodaeth unigol a thasgau trafodaeth grŵp, yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg o safon uchel. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau darllen ac

ysgrifennu y disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru yn ogystal â dysgu am agweddau cyfoes. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos balchder amlwg yn eu hiaith a'u gwlad.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr a synhwyrol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru, mae'r ysgol wedi bod yn greadigol yng nghyfnod allweddol 2 wrth addasu'r cwricwlwm. Mae cyflwyniad o 'Heriau Hwyliog' fel rhan o'r gwaith thematig yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd, creadigol a meddwl yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau disgyblion tuag at ddysgu, a dyfalbarhad a gwydnwch disgyblion wrth gwblhau tasgau ac wrth ddatrys problemau. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion, er nid yw hwn wedi gwreiddio'n llawn eto.

Mae'r ffocws diweddar ar wella egwyddorion y cyfnod sylfaen yn sicrhau bod athrawon yn dechrau cynllunio cydbwysedd addas rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan oedolion a thasgau sy'n galluogi disgyblion i weithio'n fwy annibynnol. Fodd bynnag, mae tasgau yn aml yn cael eu harwain yn ormodol gan oedolion, ac nid yw'r heriau yn yr ardaloedd dysgu bob tro'n ddigon uchelgeisiol i alluogi'r disgyblion i ymarfer eu medrau i'r un lefel ag o fewn tasgau ffocws.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae gan ran fwyaf o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn teilwra gwaith yn fedrus ar gyfer disgyblion o bob gallu. Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf o'r athrawon yn sicrhau rhediad da i wersi. Maent yn esbonio ac yn modelu gwaith yn effeithiol ac yn holi disgyblion yn bwrpasol er mwyn asesu eu dealltwriaeth ac i'w hannog i feddwl. Un o gryfderau'r addysgu yw'r berthynas waith ofalgar sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion, lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i wneud camgymeriadau ac i ddyfalbarhau i'w goresgyn. Yn yr ychydig iawn o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau llawn dychymyg sy'n tanio brwdfrydedd y disgyblion yn arbennig o dda ac yn eu herio i ymestyn eu medrau'n gyson ar draws y cwricwlwm. Yn ystod gwersi, mae athrawon yn rhoi adborth adeiladol ar lafar i ddisgyblion i wella eu gwaith. Lle mae'r adborth ysgrifenedig ar ei orau, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion wella eu medrau a chynnwys eu gwaith. Er hyn, mae'r arfer hon yn anghyson ar draws yr ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Un o gryfderau'r ysgol yw'r flaenoriaeth uchel a roddir i les pob disgybl. Mae gan yr ysgol ethos gofalgar, cynhwysol a hapus lle anogir pob disgybl i gyrraedd y safonau uchaf posibl mewn awyrgylch dysgu diogel a chartrefol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr agweddau ardderchog y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu dangos at ddysgu. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch hiliol yn effeithiol iawn. Mae sicrhau cyfle cyfartal a thegwch at bawb yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn, ac mae hyn yn cael dylanwad cryf ar ymddygiad disgyblion. Mae hawliau plant yn cael sylw amlwg

ym mywyd dyddiol yr ysgol ac mae ‘hawl y mis’ yn cyfrannu’n fuddiol at yr ymdeimlad o barch sy’n bodoli rhwng disgyblion ac oedolion.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn bwrpasol drwy’r cwricwlwm, gwasanaethau a digwyddiadau eraill, gan gynnwys y celfyddydau creadigol. Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau diddorol i ddisgyblion gydweithio â beirdd, awduron, perfformwyr ac artistiaid adnabyddus. Mae’r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau o fewn yr ysgol ac yn y gymuned leol, er enghraifft wrth ganu mewn cartref henoed lleol.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol a chyffrous sy’n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad da iawn y disgyblion o hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru a’r byd ehangach. Er enghraifft, fel rhan o’r Siarter Iaith, mae disgyblion yn dysgu am artistiaid a chaneuon cyfoes o Gymru, ac mae ymweliadau addysgiadol i leoedd diddorol fel Sain Ffagan yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes Cymru yn effeithiol. Fel rhan o’r gwaith ar brosiectau rhyngwladol, mae disgyblion hefyd yn gwerthfawrogi eu lle fel dinasyddion byd eang.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am arferion bwyta ac yfed yn iach drwy weithgareddau’r cwricwlwm ac yn allgyrsiol, er enghraifft drwy baratoi disgyblion ar gyfer y gystadleuaeth CogUrdd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio’r canfyddiadau sy’n deillio o’r prosesau hyn yn bwrpasol er mwyn trefnu cymorth effeithiol yn ôl anghenion a galluoedd y disgyblion. Enghraifft nodedig o hyn yw’r sesiynau mathemateg i’r disgyblion mwyaf abl sydd yn eu herio’n llwyddiannus i wella’u medrau rhifedd. Mae arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn gyson ac yn addasu cymorth yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae’r disgyblion sy’n derbyn cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau. Mae’r ysgol yn gofyn am gyngor a chymorth asiantaethau allanol arbenigol yn ôl yr angen er mwyn eu cynorthwyo’n llwyddiannus â datblygiad academaidd ac emosiynol y disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol. Mae disgyblion unigol a grwpiau penodol yn derbyn cefnogaeth bwrpasol sy’n sicrhau eu bod yn magu hyder ac yn cyflawni hyd orau eu gallu. Enghraifft dda o hyn yw’r ‘Ystafell Lles’ sydd yn fan pwrpasol ar gyfer sicrhau cyfnodau tawel i’r disgyblion mwyaf bregus.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae’r pennaeth yn darparu arweiniad strategol a chlir i waith yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth eglur sydd yn canolbwyntio’n gadarn ar ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o’r safon uchaf i bob disgybl o fewn awyrgylch gofalgar a theuluol. Mae’n rhannu’r weledigaeth hon yn effeithiol iawn gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae aelodau’r uwch dîm rheoli yn datblygu’u rôl strategol yn llwyddiannus ac maent yn cefnogi’r pennaeth yn fwriadus. O ganlyniad, mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac ethos o gydweithio agos mewn amgylchedd Cymreig yn bodoli o fewn yr ysgol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae’r gweithdrefnau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn ystyried barn rhanddeiliaid yr ysgol yn ofalus. Mae’r ddogfen hunanarfarnu yn cynnig darlun gonest a chywir o’r ysgol gyda chyswllt agos rhwng deilliannau’r adroddiad a blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun hwn yn canolbwyntio’n gadarn ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn y cynllun gwella’r ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes cryf o gynnal safonau uchel, fel medrau llafaredd a rhifedd disgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw’r gwaith ar ddatblygu gallu disgyblion i ddefnyddio’u medrau meddwl a rhifedd i ddatrys problemau. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw gweithgareddau monitro yn ddigon miniog i fynd i’r afael ag agweddau penodol yn y cynllun datblygu yn ddigon cyflym, er enghraifft wrth ddatblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llawn.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth gadarn o berfformiad a gweithdrefnau’r ysgol. Maent yn gefnogol iawn ac yn cydweithio’n effeithiol ag arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir. Trwy ymweliadau cyson a chyfarfodydd rheolaidd, maent yn herio’r ysgol yn llwyddiannus i wella a chynnal safonau.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cryf i gefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae trefniadau trylwyr i reoli perfformiad holl aelodau’r staff yn cyfrannu’n gadarnhaol at welliannau mewn addysgu a dysgu, ac yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i hybu eu medrau proffesiynol. Mae’r cyfleoedd buddiol i athrawon arsylwi gwersi ei gilydd a thrafod y canfyddiadau yn cyfrannu’n llwyddiannus at sicrhau addysgu o ansawdd da ar draws yr ysgol. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol iawn ag ysgolion eraill tebyg i gefnogi datblygiad proffesiynol staff. Er enghraifft, maent yn cydgynllunio i ddatblygu adnoddau a dulliau dysgu ar gyfer hybu medrau rhifedd, rhesymu a datrys problemau. Mae hyn yn cyfrannu at safonau da mewn mathemateg a rhifedd ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn cynllunio’n drwyadl i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn cynllunio’n arbennig o dda i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae’r iaith Gymraeg yn gonglfaen i holl weithgareddau’r ysgol, ac yn treiddio trwy’r cwricwlwm cyfan. Mae’r gwaith ar addasu’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 i baratoi ar gyfer cwricwlwm newydd i Gymru yn cyfrannu’n sylweddol at roi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso’u medrau’n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn hefyd wedi cryfhau agweddau disgyblion at ddysgu ymhellach i fod yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol.

Er gwaethaf cyfyngiadau ag adeiladau’r ysgol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o bob rhan o dir yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer darparu cinio mewn ysgol arall yn drwyadl a diogel. Er hyn, mae’r trefniadau’n rhwystro disgyblion rhag gwneud y defnydd gorau o’u hamser cinio ar adegau. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau er mwyn cyfoethogi’r cwricwlwm. Mae arweiwnyr yn defnyddio arbenigedd staff yn fedrus er mwyn cefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, yn enwedig y rhai mwy abl. Mae llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd i sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio cyllid yn effeithiol i godi safonau a gwella’r ddarpariaeth, er enghraifft i brynu adnoddau TGCh newydd. Gwneir defnydd da o’r grant datblygu disgyblion i wella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ac emosiynol disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2018